Senedd Cymru
**Llywodraethu a Sicrwydd**

# Arweiniad i wybodaeth

Medi 2021

www.senedd.cymru

# Cyflwyniad

O 6 Mai 2020 ymlaen daeth y Cynulliad yn Senedd Cymru, a elwir yn gyffredin yn Senedd.

Mae **Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000** yn rhoi hawl cyffredinol i unrhyw unigolyn weld gwybodaeth gofnodedig sy'n cael ei chadw gan amrywiaeth eang o awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

O dan Adran 19 o'r Ddeddf, mae dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus i gynhyrchu a chadw cynllun cyhoeddi. Mae Senedd Cymru (Senedd) wedi mabwysiadu'r cynllun cyhoeddi enghreifftiol a baratowyd ac a gymeradwywyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Yn ôl y cynllun, rhaid i awdurdodau cyhoeddus sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd fel rhan o'u busnes arferol.

Mae'r arweiniad hwn yn darparu gwybodaeth am y math o wybodaeth sy'n cael ei chadw gan y Senedd ac sydd ar gael i'r cyhoedd ei gweld. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr o bob dogfen ac nid oes linc uniongyrchol i bob dogfen sydd ar gael. Er hwylustod, mae'r mathau o wybodaeth wedi'u rhannu'n grwpiau o ddogfennau sy'n debyg i'w gilydd neu sy'n gysylltiedig â'i gilydd.

Mae'r rhan helaeth o'r wybodaeth rydym yn ei chynhyrchu ar gael yn electronig yn bennaf. Weithiau, caiff eitemau o wybodaeth eu cyhoeddi ar gopi caled hefyd, fel adroddiadau pwyllgorau a thaflenni, ac ar ffurf glywedol a gweledol amrywiol fel tapiau fideo, ffotograffau, cryno ddisgiau a disgiau DVD.

Nid yw'r Senedd yn cael ei gwmpasu gan **Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004**. Fodd bynnag, os gwneir cais am y fath wybodaeth trwy **ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru**, byddwn yn ystyried datgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys

**Cyflwyniad** .......... **2**
Pa wybodaeth y mae angen inni ei chyhoeddi? .......... 4
Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus .......... 4
Senedd Cymru .......... 4
Comisiwn y Senedd .......... 5
Sut i ddod o hyd i wybodaeth .......... 5
Iaith .......... 5
Polisi codi tâl .......... 6
Cael gwybodaeth .......... 6
Fformatau eraill .......... 6
Hawlfraint .......... 6
Cwynion .......... 7
**Pwy ydym a beth rydym yn ei wneud** .......... **8**
**Beth a gaiff ei wario a sut y caiff ei wario** .......... **10**
**Ein blaenoriaethau a sut rydym yn perfformio** .......... **12**
**Sut y byddwn yn gwneud penderfyniadau** .......... **13**
**Ein polisïau a'n gweithdrefnau** .......... **15**
**Rhestrau a Chofrestrau** .......... **16**
**Y gwasanaethau a gynigir gennym** .......... **17**

## Pa wybodaeth y mae angen inni ei chyhoeddi?

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus gael cynllun cyhoeddi, a gymeradwyir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, a chyhoeddi gwybodaeth a gwmpesir gan y cynllun.

Mae'r cynllun yn nodi ein hymrwymiad i sicrhau bod rhai dosbarthiadau gwybodaeth ar gael yn rheolaidd, megis polisïau a gweithdrefnau, cofnodion cyfarfodydd, adroddiadau blynyddol a gwybodaeth ariannol.

Mae'r arweiniad hwn i wybodaeth yn nodi pa wybodaeth a gyhoeddir gennym a sut y mae ar gael, er enghraifft, ar-lein neu drwy gysylltu â ni a'n rhestr o ffioedd (nodi beth a godir gennym am wybodaeth).

## Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus

Mae Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus 2005 (Rheoliadau PSI) yn sefydlu fframwaith ar gyfer ailddefnyddio gwybodaeth yn haws ac mae'n ategu deddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â mynediad at wybodaeth fel Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOI) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIR).

Mae'r Senedd wedi ymrwymo i ganiatáu ailddefnyddio ei gwybodaeth, lle bynnag y mae'n bosibl ac yn rhesymol gwneud hynny. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am sut i wneud cais i ailddefnyddio ein gwybodaeth, darllenwch at ein **Cwestiynau Cyffredin**.

Mae'r arweiniad hwn yn ymdrin â gwybodaeth a gaiff ei chadw gan y Senedd. Nid yw'n cynnwys gwybodaeth a gaiff ei chadw gan Lywodraeth Cymru.

Sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan **Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998** a dechreuodd ymgymryd â'i swyddogaethau ym mis Gorffennaf 1999.

Sefydlodd **Deddf Llywodraeth Cymru 2006** Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad), Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Comisiwn y Cynulliad) a Llywodraeth Cymru.

## Senedd Cymru

Mae Senedd Cymru (y Senedd) yn cynnwys 60 o Aelodau o'r Senedd a gafodd eu hethol gan bobl Cymru. Y Senedd sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r rhan fwyaf o wariant cyhoeddus Cymru, am graffu ar waith Llywodraeth Cymru ac am ei dwyn i gyfrif. Yn ogystal, mae ganddi bŵer i greu deddfwriaeth (a elwir yn Filiau) mewn

meysydd nad ydynt wedi'u cadw gan Senedd y DU yn sgil Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017).

## Comisiwn y Senedd

Mae Comisiwn y Senedd yn cynnwys y Llywydd a phedwar Aelod arall o'r Senedd, a elwir yn Gomisiynwyr y Senedd. Rhaid i Gomisiwn y Senedd ddarparu'r eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y Senedd, neu sicrhau y darperir y rhain iddi.

Mae'r Cynllun hwn yn cyfeirio at y wybodaeth a gyhoeddwn neu y bwriadwn ei chyhoeddi. Mae'n nodi: https://senedd.cymru/comisiwn/mynediad-at-wybodaeth/cynllun-cyhoeddi-adran-19-o-ddeddf-rhyddid-gwybodaeth-2000/

Mae rhagor o wybodaeth am y Senedd a Chomisiwn y Senedd ar gael yn
**https://senedd.cymru/busnes-y-senedd/**
**https://senedd.cymru/comisiwn/**

## Sut i ddod o hyd i wybodaeth

Rydym wedi rhannu'r wybodaeth sydd ar gael yn gyffredinol gan y Senedd yn gategorïau eang fel a ganlyn:

- Pwy ydym a beth rydym yn ei wneud;
- Beth a gaiff ei wario a sut y caiff ei wario;
- Sut y byddwn yn gwneud penderfyniadau;
- Ein polisïau a'n gweithdrefnau;
- Rhestrau a chofrestrau;
- Y gwasanaethau a gynigir gennym.

Mae'r arweiniad hwn yn rhoi manylion am y mathau o wybodaeth sydd ar gael ym mhob categori a sut i gael y wybodaeth honno. Arweiniad yn unig yw'r rhestr hon ac nid yw'n rhestr gyflawn o'r holl wybodaeth sydd ar gael gan y Senedd.

## Iaith

Cyhoeddir pob darn o wybodaeth yn unol â **Chynllun Ieithoedd Swyddogol** y Senedd. Fel arfer mae dogfennau y bwriedir iddynt gael eu defnyddio gan y cyhoedd ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth a dogfennau ar ddwy wefan, un yn Gymraeg https://senedd.cymru/busnes-y-senedd/ a'r llall yn Saesneg https://senedd.wales/senedd-business/. Mae'r holl wybodaeth a gynhyrchir yn cydymffurfio â'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol.

## Polisi codi tâl

Byddwn yn ceisio darparu'r holl wybodaeth am ddim. Cyflawnir y rhan fwyaf o geisiadau am ddarn o ffilm drwy drosglwyddo ffeil, fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen codi tâl ar gyfer rhai mathau o wybodaeth yn y categorïau sydd wedi'u rhestru yn yr arweiniad hwn, er enghraifft tapiau sain, tapiau fideo, cryno ddisgiau a disgiau DVD.

## Cael gwybodaeth

Caiff y rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd yn y categorïau ei chyhoeddi ar wefan y Senedd. Yn aml iawn, mae dogfennau ar gael ar gopi caled hefyd a gallwch ofyn amdanynt drwy ffonio llinell wybodaeth y Senedd. Os yw'r wybodaeth ar gael ar fformat electronig yn unig e.e. Cofnod y Trafodion, darperir copi papur o'r wybodaeth i'r sawl na allant gael mynediad i'r rhyngrwyd.

Os hoffech:

- gopïau caled o'r arweiniad (yn Gymraeg neu'n Saesneg);
- copïau caled o unrhyw wybodaeth a gyhoeddir o fewn yr arweiniad hwn;

dylech gysylltu â Llinell Wybodaeth y Senedd:

- Llinell Wybodaeth y Senedd: 0300 200 6565
- Gwasanaeth Text Relay: Mae gwybodaeth am sut i dderbyn a gwneud galwad drwy'r Gwasanaeth Text Relay ar gael ar y wefan yn www.textrelay.org. Rydym yn croesawu galwadau drwy'r gwasanaeth hwn.

## Fformatau eraill

Gallwn drefnu i chi gael copi o'r arweiniad hwn mewn fformat Braille, ar dâp sain ac mewn print bras. Gallwn hefyd ddarparu copïau o'n cyhoeddiadau copi caled, megis taflenni, yn y fformatau hyn.

## Hawlfraint

Mae ein cyhoeddiadau'n ddarostyngedig i Hawlfraint Senedd Cymru 2021.

Caniateir i ddeunyddiau, ac eithrio logo'r Senedd, gael eu hatgynhyrchu am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyhyd ag y cânt eu hatgynhyrchu'n fanwl gywir ac na chânt eu defnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod mai hawlfraint Senedd Cymru yw'r deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Mae rhagor o wybodaeth am hawlfraint Senedd Cymru i'w chael gan Gomisiwn y Senedd neu ar y gwefannau a ganlyn:

- Gorchymyn Hawlfraint Seneddol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2007 http://www.opsi.gov.uk/si/si2007/20071116.htm
- Gwybodaeth am reoliadau ailddefnyddio gwybodaeth ar gyfer y sector cyhoeddus: **http://www.opsi.gov.uk/advice/psi-regulations/index.htm**

## Cwynion

Os ydych wedi cael trafferth cael gafael ar wybodaeth a gyhoeddir gan Gomisiwn y Senedd, neu os nad ydych yn fodlon ar y modd y cafodd eich ymholiad ei drin, mae'r Cod Ymarfer ar Gwynion yn rhoi arweiniad ar sut i gwyno am y broses weinyddol a'r modd y byddwn yn ymdrin â'ch cwyn.

Os nad ydym wedi llwyddo i ddatrys eich cwyn yn foddhaol yn eich barn chi, dylech gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

- Rhif ffôn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: 0303 123 1113
- Ffacs: 01625 545 510
- E-bost: casework@ico.org.uk
- Information Commissioner's Office
  Wycliffe House
  Water Lane
  Wilmslow
  Cheshire
  SK9 5AF

# Pwy ydym a beth rydym yn ei wneud

Gwybodaeth am y modd y caiff y Senedd ei hethol, y gwahaniaeth rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru, sut y mae'r Senedd yn gweithio, a gwybodaeth am ei phwerau a'i chyfrifoldebau:

- Rôl y Senedd
- Rôl y Cyfarfod Llawn
- Rôl pwyllgorau'r Senedd.
- Manylion am berthynas y Senedd â chyrff deddfwriaethol eraill
- Gwybodaeth am Gomisiwn y Senedd gan gynnwys ei aelodaeth, ei gylch gwaith a'i brif bolisïau
- Bywgraffiad o'r Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd.
- Gwybodaeth am rôl y gwahanol gyfarwyddiaethau a chyfarwyddwyr

**Argaeledd**

Ar wefan y Senedd mae adran dan y teitl 'Comisiwn y Senedd'. Yn yr adran hon cewch nifer o lincs i dudalennau sy'n cynnwys gwybodaeth yn y dosbarth hwn. https://senedd.cymru/comisiwn/

Mae gan y wefan adran dan y teitl 'Busnes y Senedd' sy'n cynnwys lincs i wybodaeth am y Cyfarfod Llawn a Phwyllgorau. https://senedd.cymru/busnes-y-senedd/

Mae ein rhith-daith yn eich galluogi i grwydro'r Senedd ac mae ar gael yn: https://senedd.cymru/ymweld-a-ni/pethau-i-w-gwneud/taith-rithwir/

**Y Gwasanaeth Ymchwil**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn rhoi cymorth ymchwil cyfrinachol a diduedd i bwyllgorau craffu a phwyllgorau deddfwriaethol y Senedd, ac i'r 60 Aelod unigol o'r Senedd a'u staff. Pan fo'n briodol, cyhoeddir papurau briffio'r Gwasanaeth Ymchwil ar gyfer pwyllgorau pan fydd y pwyllgorau wedi gorffen trafod y mater dan sylw, yn amodol ar fodloni gofynion cyfreithiol perthnasol a sicrhau effeithiolrwydd busnes y Senedd.

Mae rhagor o wybodaeth a chopïau o bapurau ymchwil ar gael yn https://ymchwil.senedd.cymru/

**Bywgraffiadau a manylion cyswllt Aelodau o'r Senedd**

Mae gwybodaeth am Aelodau o'r Senedd ar gael yn: https://senedd.cymru/dod-o-hyd-i-aelod-o-r-senedd/

**Manylion cyswllt y Senedd**

Mae manylion cyswllt ar gael ar ein gwefan yn https://senedd.cymru/cymorth/cysylltu-a-ni/ neu mae modd cael y wybodaeth drwy ffonio'r llinell wybodaeth a nodir uchod.

# Beth a gaiff ei wario a sut y caiff ei wario

**Cyfrifon blynyddol archwiliedig**

Mae'r Adroddiad Blynyddol a gyhoeddir bob mis Gorffennaf yn cynnwys Datganiad o Gyfrifon. Mae'r adroddiad ar gael ar dudalen Comisiwn y Senedd ar wefan y Senedd.

https://busnes.senedd.cymru/mgissueHistoryHome.aspx?IId=2850

**Gwybodaeth fisol am y gyllideb ac adroddiadau ariannol ar gyfer prosiectau neu ddigwyddiadau penodol**

Mae modd gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y gyllideb gan y llinell wybodaeth.

**Gwybodaeth am gyflogau, lwfansau a threuliau Aelodau**

Caiff gwybodaeth am gyflogau a threuliau Aelodau o'r Senedd ei chyhoeddi ar wefan y Senedd: https://senedd.cymru/sut-rydym-yn-gweithio/ynghylch-aelodau-o-r-senedd/cyflogau-a-threuliau-aelodau-o-r-senedd/

Cyhoeddir manylion am dreuliau Aelodau o'r Senedd yn: https://lwfansau.cynulliad.cymru/

**Graddfeydd cyflog a pholisïau yn ymwneud â lwfansau a threuliau ar gyfer staff Comisiwn y Senedd**

Cyhoeddir gwybodaeth am delerau cyflogaeth ar gyfer staff ar wefan y Senedd yn: https://senedd.cymru/comisiwn/gweithio-i-gomisiwn-y-senedd/

**Cyfanswm y treuliau a hawliwyd gan y Prif Weithredwr a'r Clerc**

Bydd y treuliau a hawliwyd gan y Prif Weithredwr yn ymddangos yn yr **adroddiad blynyddol** a gyhoeddir. Bydd y treuliau a hawliwyd gan y Cyfarwyddwyr hefyd yn ymddangos yn yr adroddiad blynyddol a gyhoeddir.

**Gweithdrefnau caffael a rhestr o'r contractau presennol**

Mae rhestr o'r contractau wedi'i chyhoeddi ar wefan y Senedd yn https://senedd.cymru/comisiwn/ein-gwerthoedd-caffael/sut-i-gynnig-am-gontract-gan-senedd-cymru/

**Rheoliadau ariannol mewnol**

Mae gwybodaeth am weithdrefnau mewnol ar gael ar gais.

# Ein blaenoriaethau a sut rydym yn perfformio

**Comisiwn y Senedd a Strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd**

Mae'r strategaeth ar gael ar y wefan yn:
https://senedd.cymru/comisiwn/adroddiad-blynyddol-a-chyfrifon-y-comisiwn/

**Adroddiad Blynyddol Comisiwn y Senedd**

Cyhoeddir yr Adroddiad Blynyddol ym mis Gorffennaf, ac mae'r adroddiad diweddaraf ar gael yn:
https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=2850

**Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol**

Mae fersiwn copi caled o'r adroddiad blynyddol archwilio ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol ar gael o fis Gorffennaf drwy'r llinell wybodaeth.

**Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol**

Cyhoeddir yr Adroddiad Cydraddoldeb diweddaraf ar ein gwefan yn:
**https://senedd.cymru/comisiwn/gweithio-i-gomisiwn-y-senedd/amrywiaeth-a-chynhwysiant-yn-y-comisiwn/adroddiadau-blynyddol-a-data-amrywiaeth/**

**Adroddiad ar Berfformiad Corfforaethol**

Mae Comisiwn y Senedd yn cyhoeddi Adroddiad ar Berfformiad Corfforaethol. Defnyddir y lliwiau Coch, Oren a Gwyrdd i gyfleu cyflawniad o ran perfformiad mewn ffordd syml, gan dderbyn yr angen am rywfaint o oddrychedd.

Ers mis Medi 2017, mae'r Adroddiad ar Berfformiad Corfforaethol wedi'i gyhoeddi yn Adroddiad Blynyddol Comisiwn y Cynulliad. Mae ystadegau rhyddid gwybodaeth yn cael eu cofnodi yn yr adroddiad hwn.

# Sut y byddwn yn gwneud penderfyniadau

**Hysbysiadau busnes**

Cyhoeddir hysbysiadau busnes, agendâu a phapurau ar wefan y Senedd yn: https://senedd.cymru/busnes-y-senedd/

**Trawsgrifiadau o'r Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor y Senedd**

Gallwch weld darllediadau byw o gyfarfodydd cyhoeddus drwy wefan y Senedd yn: **http://www.senedd.tv**

Caiff trawsgrifiadau o'r Cyfarfod Llawn eu cyhoeddi i ddechrau yn yr iaith a siaredir gyda thrawsgrifiad o'r cyfieithu ar y pryd pan siaredir Cymraeg. Cyhoeddir fersiwn ddrafft ar sail dreigl a bydd yn dechrau ymddangos tua awr ar ôl dechrau'r Cyfarfod Llawn. Caiff ei diweddaru bob chwarter awr.

Caiff Cofnod y Trafodion ei gyhoeddi ar-lein o fewn 24 awr ac mae'n cynnwys lincs i'r canlyniadau pleidleisio llawn, i fywgraffiadau'r Aelodau ac i Senedd TV. Mae hefyd lle i rannu cyfraniadau unigol gan Aelodau ar y cyfryngau cymdeithasol ac opsiynau i gopïo fel testun plaen er mwyn argraffu'n haws.

Cyhoeddir y fersiwn derfynol gwbl ddwyieithog, gyda phob cyfraniad yn y ddwy iaith, o fewn tri diwrnod gwaith. Cyhoeddir atebion i Gwestiynau Llafar nas cyrhaeddwyd yn ystod y Cyfarfod Llawn o fewn 24 awr.

https://senedd.cymru/busnes-y-senedd/cyfarfod-llawn/

Mae trawsgrifiadau o gyfarfodydd pwyllgorau ar gael ar ffurf ddrafft o fewn tri i bum diwrnod gwaith, ac mae fersiwn derfynol yn cael ei chyhoeddi o fewn 10 diwrnod gwaith.

Mae trawsgrifiadau pwyllgorau'n cynnwys y cyfieithiad ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg a ddarlledwyd yn ystod y cyfarfod, ond ni chaiff y cyfraniadau Saesneg eu cyfieithu i'r Gymraeg. https://senedd.cymru/busnes-y-senedd/pwyllgorau/

**Dogfennau a osodwyd gerbron y Senedd a Datganiadau Barn a gyflwynwyd gan Aelodau o'r Senedd**

Cyhoeddir dogfennau a gaiff eu gosod gerbron y Senedd a Datganiadau Barn a gyflwynwyd yn https://senedd.cymru/busnes-y-senedd/dogfennau-papurau-ac-adroddiadau/

### Hynt Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol a Biliau'r Senedd

Caiff gwybodaeth am Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol a Biliau'r Senedd eu cyhoeddi yn https://senedd.cymru/busnes-y-senedd/deddfwriaeth/

### Agendâu a phapurau pwyllgorau

Caiff gwybodaeth am bwyllgorau presennol a phwyllgorau blaenorol eu cyhoeddi yn: https://senedd.cymru/busnes-y-senedd/pwyllgorau/

### Deisebau

Mae Deiseb yn ffordd o ofyn i'r Senedd drafod unrhyw fater, problem neu gynnig y mae gan y Senedd y pŵer i weithredu yn ei gylch. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: https://senedd.cymru/busnes-y-senedd/deisebau/

### Agendâu, papurau a chofnodion cyfarfodydd y Comisiwn

Ac eithrio gwybodaeth a gaiff ei hystyried yn breifat i'r cyfarfod, caiff agendâu, papurau a chofnodion y Comisiwn eu cyhoeddi ar wefan y Senedd: **http://www.senedd.cynulliad.cymru/ieListMeetings.aspx?CommitteeId=258&$LO$=1**

# Ein polisïau a'n gweithdrefnau

**Protocolau, polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol**

Cyhoeddir rhai polisïau a gweithdrefnau ar ein gwefan yn:
https://senedd.cymru/comisiwn/polisi-comisiwn-y-senedd/

Mae'n bosibl mai dim ond ar ffurf copi caled y mae rhai dogfennau ar gael a dylid gwneud ceisiadau amdanynt drwy'r llinell wybodaeth.

**Rheolau Sefydlog y Senedd**

Mae Rheolau Sefydlog y Chweched Senedd ar gael yn:
https://senedd.cymru/busnes-y-senedd/ymddygiad-rheolau-a-chanllawiau/

**Polisi recriwtio a gwybodaeth am swyddi gwag**

Mae gwybodaeth am weithio i Gomisiwn y Senedd ynghyd â manylion am y swyddi gwag presennol ar gael ar ein gwefan yn:
https://senedd.cymru/comisiwn/gweithio-i-gomisiwn-y-senedd/

**Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd weld Gwybodaeth a'r Cod Ymarfer ar Gwynion**

Mae'r Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd weld Gwybodaeth https://senedd.cymru/comisiwn/mynediad-at-wybodaeth/cod-ymarfer-ar-ganiatau-i-r-cyhoedd-weld-gwybodaeth/ a'r Cod Ymarfer ar Gwynion wedi'u cyhoeddi ar wefan y Senedd yn: https://senedd.cymru/cymorth/cwynion/

# Rhestrau a Chofrestrau

**Cofrestr Buddiannau'r Aelodau**

Mae Adran 36 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 2 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd gynnal a chyhoeddi Cofrestr o Fuddiannau Aelodau o'r Senedd. Mae ar gael yn https://senedd.cymru/busnes-y-senedd/cofrestr-buddiannau-r-aelodau/

Cyhoeddir cofrestr o'r rhoddion y mae'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd wedi'u cael yn: https://senedd.cymru/busnes-y-senedd/llywydd/cofrestr-rhoddion-lletygarwch-a-dderbyniwyd-llywydd-a-dirprwy-lywydd/

**Cofnod Datgelu**

Mae'r Cofnod Datgelu yn rhoi manylion am y wybodaeth a gaiff ei rhyddhau mewn ymateb i geisiadau a wneir o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Cyhoeddir y Cofnod yn: https://senedd.cymru/comisiwn/mynediad-at-wybodaeth/cofnod-ddatgelu/

# Y gwasanaethau a gynigir gennym

**Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc**

Mae'r gwasanaeth Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc yn darparu gwybodaeth amrywiol i'w defnyddio gan y sector addysg.

**Ymweld â'r Senedd a chynnal digwyddiad neu arddangosfa yn y Senedd**

Mae gwybodaeth am deithiau tywys a chynnal digwyddiadau yn y Senedd ar gael ar ein gwefan yn: https://senedd.cymru/ymweld-a-ni/addysg-ac-ymgysylltu-a-phobl-ifanc/ymweld-a-r-tim-addysg/

**Gwybodaeth i newyddiadurwyr**

Mae Cwestiynau Cyffredin ar gyfer y Cyfryngau wedi'u cyhoeddi yn: https://senedd.cymru/cyfrangu/cwestiynau-cyffredin-ar-gyfer-y-cyfryngau/

**Datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau**

Mae datganiadau cyfredol i'r wasg a hen ddatganiadau i'r wasg wedi'u cyhoeddi yn: https://senedd.cymru/senedd-nawr/newyddion/

**Calendr digwyddiadau**

Mae calendr digwyddiadau a busnes wedi'i gyhoeddi yn https://busnes.senedd.cymru/mgCalendarMonthView.aspx?umbraco=1

**Gwybodaeth am y Senedd**

Cyhoeddir gwybodaeth eang am y Senedd yn https://senedd.cymru/ymweld-a-ni/